SYMPOSIWM

CREU CAERDYDD A'R FRO SY'N DDA I BLANT

Dydd Llun 9 Mawrth 2020

Nodau'r digwyddiad:

Bydd *Creu Caerdydd a'r Fro sy'n Dda i Blant* yn dod â phobl ifanc ynghyd ag ystod eang o randdeiliaid, gan gynnwys gweithwyr proffesiynol o'r meysydd canlynol: iechyd a gofal cymdeithasol, addysg, cynllunio, trafnidiaeth, y trydydd sector, ac academyddion. Bydd y cyfranogwyr yn cymryd rhan mewn ystod o weithgareddau i wella eu dealltwriaeth ac i'w hannog i rannu a datblygu syniadau.

Bydd y digwyddiad hwn yn annog cyfranogwyr i weld y cysylltiad rhwng hawliau plant a'u gwaith ac fel unigolion. Yn benodol, pwysleisir pwysigrwydd ystyried iechyd fel y'i diffinnir yn erthygl 24 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) fel hawl cynhwysol, ond hefyd yn hawl i dyfu a datblygu i'w llawn botensial a byw mewn amgylchiadau sy'n eu galluogi nhw i gyrraedd y safon iechyd uchaf bosibl. Bydd yr agwedd hon -sef bywyd sy'n dda i blant yn ystyried y posibilrwydd o uno ystod o agendau rhagweithiol - gan gynnwys iechyd a lles, gordewdra, cynaliadwyedd, gwydnwch a diogelwch - i weithredu fel sbardun i arloesi. Datblygu ymagwedd gyfannol i fannau iach a sylweddoli bod hawl plant i iechyd o fewn y fframwaith ehangach o rwymedigaethau i hawliau dynol rhyngwladol yn bwysig i wynebu'r heriau yn y gymdeithas sydd ohoni.

Mae'r CCUHP yn nodi bod gan bob person dan 18 oed 42 o hawliau. Mae'r hawliau hyn yn rhoi i blant a phobl ifanc yr hyn sydd ei angen arnynt i dyfu'n hapus, yn iach ac yn ddiogel. Cymru oedd y wlad gyntaf yn y DU i ymgorffori hawliau plant yn y gyfraith ddomestig drwy greu 'Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011'.

Fframwaith y digwyddiad hwn yw hawl y plentyn i fod o bwysau iach. Mae gordewdra yn broblem allweddol yn ardal Caerdydd a'r Fro, a gweledigaeth y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yw bod rhaid cefnogi pob plentyn i gynnal pwysau iach drwy ddull o bartneriaeth yr ydym yn ei fabwysiadu i ddatblygu'r gwaith hwn. Bydd y digwyddiad yn cynnig cyfle i ystyried sut y gallwn ni weithio gyda'n gilydd ar yr agenda hwn, o safbwynt plentyn, a byddwn yn canolbwyntio ar gynllunio a'r amgylchedd lleol yn benodol gan mai amgylchedd iach yw'r ffactor hanfodol i alluogi plant i gynnal pwysau iach.

Mae'n bwysig cael ymagwedd sy'n dda i blant gan y bydd yn ein helpu i greu cymunedau llwyddiannus sy'n gweithio i bawb a bydd cynllunio ac adeiladu datblygiadau heddiw yn effeithio ar genedlaethau'r dyfodol. Mae'r Symposiwm yn ddull arloesol o ddod â rhanddeiliaid a dylanwadwyr perthnasol at ei gilydd i eirioli am ddull cyson a systematig o gynllunio a dylunio cymunedau sy'n gwella datblygiad plant, a'u hiechyd, ac yn rhoi cyfleoedd iddynt y tu hwnt i feysydd chwarae yn unig.

Hefyd, dyma gyfle i ystyried sut gallai plant a phobl ifanc ddylanwadu ar gynllunio a darpariaeth nifer o wasanaethau, gan gynnwys iechyd ac addysg.

Rydym yn gobeithio y bydd y digwyddiad yn rhoi cychwyn ar ddull tymor hirach, yn unol ag egwyddorion deddfwriaeth Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) i greu dinas a gwasanaethau sy'n dda i blant yn y dyfodol. Byddwn yn glynu at egwyddorion 'Llywio Ein Llesiant yn y Dyfodol' wrth ddatblygu gwasanaethau sy'n diwallu anghenion defnyddwyr gwasanaethau yn y dyfodol.

SYMPOSIUM

BUILDING A CHILD FRIENDLY CARDIFF & VALE

Monday 9th March 2020

Aims of the event:

Building a Child Friendly Cardiff and Vale will bring together young people with a wide range of stakeholders including professionals from health and social care, education, planning, transport, third sector, and academia. Delegates will participate in a number of activities to enhance their understanding and encourage them to share and develop ideas.

This event will encourage delegates to see the connection of children's rights to their work and as individuals. In particular, the importance of seeing health as defined in article 24 of the United Nations Convention of the Rights of the Child (UNCRC) as an inclusive right, but also to a right to grow and develop to their full potential and live in conditions that enable them to attain the highest standard of health. This child-friendly approach will explore the potential to unite a range of progressive agendas – including health and wellbeing, obesity, sustainability, resilience and safety – to act as a catalyst for innovation. Developing a holistic approach to healthy places and the realisation of children's right to health within the broader framework of international human rights obligations is important if we are to meet the challenges in today's society.

The UNCRC says that every person under the age of 18 years has 42 rights. These rights give children and young people what they need to grow up happily, healthily and safely. Wales became the first UK country in 2011 to enshrine children's rights in domestic law by creating the 'Rights of Children and Young Persons (Wales) Measure 2011'.

The framework for this event is a child's right to be a healthy weight. Obesity is a key issue in Cardiff and the Vale, and it is the vision of the Public Service Board that every child is supported to be a healthy weight through the partnership approach that we take to develop this work. The event will provide an opportunity to consider how we can work together on this agenda, through a child rights lens, and we will particularly focus on planning and the local environment as having a healthy environment is a crucial factor in enabling children to be a healthy weight.

A child-friendly approach to planning is important as it helps us to build successful communities that work for everyone and the planning and building of developments today will impact future generations. The Symposium is an innovative means of bringing together relevant stakeholders and influencers to advocate for a coherent and systematic approach to planning and designing communities that improve children's development, health and access to opportunities, moving well beyond simply providing playgrounds.

In addition, this is an opportunity to explore how children and young people could influence the design and delivery of a range of services, including health and education.

We hope the event will be the beginning of a longer-term approach, in keeping with the principles of the Wellbeing of Future Generations (2015) legislation to build a child friendly city and services for the future. We will adhere to the principles of `Shaping Our Future Wellbeing' in developing services that meet the needs of the future service users.